

Polisi Cwynion ac Adborth IOPC

Mehefin 2026

Cynnwys

Cynnwys	1
Cyflwyniad	2
Cysylltu â thîm Cwynion ac Adborth IOPC	2
Cymorth i gael mynediad i'n gwasanaethau	3
Defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial	3
Ein safonau gwasanaeth	3
Adborth	4
Beth yw adborth?	4
Sut i roi adborth	4
Cwynion	5
Beth yw cwyn?	5
Sut i wneud cwyn	5
Asesiad	6
Cam 1	6
Cam 2	9
Uwch-gyfeiriad allanol	10
Cwynion cyfyngu	10
Trin data	11
Sut mae'r polisi hwn yn cysylltu â'n polisiau eraill	11
Atodiad 1: Materion na all Tîm Cwynion ac Adborth IOPC helpu	12
Atodlen 2: Llif y Broses Cwynion	14
Geirfa termau	15

Cyflwyniad

Yn Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC), rydym yn ymdrechu i gynnig gwasanaeth teg, effeithlon ac o ansawdd uchel. Os na fyddwn yn cwrdd â'ch disgwyliadau neu os ydych yn anfodlon â'r gwasanaeth a ddarperir, mae'r polisi hwn yn amlinellu sut y gallwch gwyno am, neu roi adborth ar, IOPC a'i staff.

Mae'r polisi hwn yn esbonio sut mae IOPC yn diffinio cwynion ac adborth, ac yn nodi sut bydd y tîm Cwynion ac Adborth yn ymdrin â gwahanol fathau o gwynion, gan gynnwys y rheini lle mae [Rheoliadau Ymddygiad Staff yr IPCC 2004](#) yn berthnasol.¹

Cysylltu â thîm Cwynion ac Adborth IOPC

Yn y lle cyntaf, y ffordd orau o roi adborth i IOPC yw cysylltu â'r unigolyn sy'n ymdrin â'ch achos neu'ch ymholiad. Efallai bydd modd iddynt helpu ar unwaith.

Fel arall, gallwch wneud cwyn, rhoi adborth, neu drosglwyddo canmoliaeth drwy un o'r sianeli canlynol:

- E-bostiwch ni ar feedback@policeconduct.gov.uk
- Defnyddiwch ein ffurflen ar-lein: [Cyflwyno adborth | Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu \(IOPC\)](#)
- Gadewch neges lais diogel i'r Tîm Cwynion ac Adborth ar 020 7166 3261, gan sicrhau eich bod yn darparu manylion eich cwyn, a'ch manylion cyswllt.
- Ysgrifennwch at:
Tîm Cwynion ac Adborth
Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
PO Box 473
Sale
M33 0BW

Rydym yn croesawu e-byst ac unrhyw gyfathrebu ysgrifenedig yn y Gymraeg.

¹ Diffinnir testun **mewn print trwm** yng Ngeirfa y polisi hwn. Lle mae'r Rheoliadau Ymddygiad Staff yn berthnasol, nodir hyn yn y troednodiadau. Mae'r rheoliadau'n cadw'r cyfeiriad at IPCC, ond yn berthnasol i IOPC.

Cymorth i gael mynediad i'n gwasanaethau

Os oes angen help arnoch i wneud cwyn neu roi adborth am IOPC, gallwch:

- Ofyn am addasiadau rhesymol i'w ystyried o dan ein [polisi Addasiadau Rhesymol i Ddefnyddwyr Gwasanaeth](#);
- Ofyn i ffrind, aelod o'r teulu neu gynrychiolydd gysylltu â ni ar eich rhan, gyda'ch caniatâd.
- Gysylltu â Citizens Advice neu wasanaeth cymorth arall.
- Nid ydym yn gallu cynnig cyswllt wyneb yn wyneb â'r tîm; fodd bynnag, gallwch gysylltu â ni drwy un o'r dulliau cysylltu a restrir uchod.

Defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial

Nid oes angen i'ch cwyn fod wedi'i ysgrifennu mewn iaith ffurfiol neu gymhleth. Mae'r tîm Cwynion ac Adborth eisiau clywed am eich profiad personol o IOPC, a'r effaith y mae'r gwasanaeth a ddarparwyd wedi'i gael arnoch.

Rydym yn deall y gallwch fod am ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial (AI) fel ChatGPT i'ch helpu i wneud eich cwyn. Rydym yn argymhell bod yn ofalus wrth nodi gwybodaeth sensitif mewn offer AI, gan na fydd hyn bob amser yn cael ei brosesu'n ddiogel. Cofiwch wirio unrhyw ddeunydd a gynhrychir gan AI i sicrhau ei fod yn gywir.

Peidiwch â gofyn i AI ychwanegu nodweddion fel dadleuon cyfreithiol neu gyfeiriadau at ddeddfwriaeth, gan fod hyn yn gwneud hi'n anoddach i ni ddeall eich cwyn. Yn yr achosion hyn, efallai y byddwn yn cymryd mwy o amser i ymateb i'ch cwyn neu'n gofyn i chi ailgyflwyno'ch cwyn yn eich geiriau eich hun.

Ein safonau gwasanaeth

Mae safonau gwasanaeth IOPC yn berthnasol i bopeth yr ydym yn gwneud ac yn nodi'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym. Gallwch gyflwyno cwyn i ni os ydych yn teimlo nad ydym wedi gweithredu yn unol â'r safonau hyn.

1. Byddwn yn sicrhau ein bod yn deall eich amgylchiadau a'ch anghenion. Byddwn yn dweud wrthy'ch beth allwn a beth na allwn ei wneud, a'r rhesymau pam.
2. Byddwn yn dweud wrthy'ch am sefydliadau eraill a allai eich helpu os na allwn ni.
3. Bydd gennym broses glir a thryloyw i ymdrin ag unrhyw gwynion neu adborth sydd gennych am ein gwasanaeth.
4. Byddwn bob amser yn eich trin â pharch a chwarteisi.
5. Byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaeth yn hygyrch ac yn bodloni eich anghenion.
6. Byddwn yn gofyn i chi sut hoffech gael gwybod am gynnydd ein gwaith, a pha mor aml hoffech gael cyswllt.

7. Byddwn yn onest ac yn agored gyda chi ynglŷn â pha mor hir rydym yn credu bydd ein gwaith yn ei gymryd. Os ydym yn credu y bydd yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl, byddwn yn rhoi gwybod i chi ac yn esbonio pam.
8. Byddwn yn esbonio ein prosesau i chi a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni ym mhob cam o'n gwaith.
9. Byddwn yn sôn wrthy ch am ein canfyddiadau ynghylch eich achos, a fydd yn annibynnol ac wedi'u seilio ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ni.
10. Byddwn yn ymddiheuro'n uniongyrchol ac yn ddiffuant pan fydd ein gwasanaeth yn methu, neu pan fyddwn wedi gwneud camgymeriadau.
11. Byddwn yn cadw unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch yn ddiogel a saff, a byddwn dim ond yn ei ddefnyddio fel y disgrifir yn ein [hysbysiad preifatrwydd](#).

Adborth

Beth yw adborth?

Rydym yn diffinio adborth am IOPC fel gwybodaeth am ble rydym wedi gwneud pethau'n iawn, neu awgrymiadau ynghylch sut y gallwn wella.

Rydym yn ymdrechu i wneud pethau'n gywir y tro cyntaf a darparu'r lefel orau o wasanaeth ym mhopeth rydym yn gwneud. Rydym yn croesawu adborth ynghylch sut rydym yn gwneud ac fe ddefnyddiwn unrhyw adborth i wella neu diwygio ein dull gweithredu pan yn briodol.

Sut i roi adborth

Rydym yn croesawu pob adborth ynghylch ein staff a'n gwasanaethau. Cysylltwch â ni trwy unrhyw un o'r dulliau a restrir ar dudalen 2. Gall eich adborth ymwneud â rhywbeth rydych chi'n meddwl rydym wedi'i wneud yn dda, neu â maes rydych chi'n meddwl y gallem ei wella, ond nad ydym yn ei ystyried yn gŵyn.

Nod tîm Cwynion ac Adborth yw cydnabod pob adborth o fewn **3 diwrnod gwaith**. Byddwn yn sicrhau ei fod yn cael ei rannu gyda'r tîm(au) perthnasol.

Os bydd angen ymateb i'ch adborth, byddwn yn gofyn i reolwr ddarparu hyn o fewn **20 diwrnod gwaith**.

Cwynion

Beth yw cwyn?

At ddibenion y polisi hwn, mae IOPC yn diffinio cwyn fel mynegiant o anfodlonrwydd gan ddefnyddiwr gwasanaeth ynghylch safon y gwasanaeth a ddarperir gan IOPC, neu ymddygiad aelod o staff IOPC.

Mae hyn yn golygu bod gennych hawl i gwyno am faterion megis:

- Oedi i'ch achos, neu oedi wrth ddarparu'r diweddariadau y cytunwyd arnynt
- Ansawdd ein cyfathrebu â chi
- IOPC yn methu â chyrraedd ein safonau gwasanaeth (gweler tudalennau 3-4)
- IOPC yn methu â chydymffurfio â safonau'r iaith Gymraeg²

Mae rhai materion na all y tîm Cwynion ac Adborth eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys cwynion sy'n ymwneud â:

- Penderfyniad achos
- Digwyddiad a ddigwyddodd dros 12 mis yn ôl
- Digwyddiad na effeithiodd yn uniongyrchol nac yn niweidiol arnoch
- Sefydliad heblaw IOPC

Gweler [Atodlen 1](#) am fwy o wybodaeth am faterion na all y tîm Cwynion ac Adborth helpu gyda nhw.

Sut i wneud cwyn

Dim ond cwynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth IOPC, a/neu'r rhai sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol ac yn niweidiol gan weithredoedd IOPC gall y tîm Cwynion ac Adborth eu trin.

Os ydych wedi dewis gwneud eich cwyn yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg.

Wrth gyflwyno'ch cwyn, sicrhewch eich bod yn darparu'r wybodaeth ganlynol:

- Eich enw a'ch manylion cyswllt
- Eich rhif(au) cyfeirnod IOPC, os yw'n berthnasol
- Enw'r aelod(au) o staff IOPC rydych am gwyno amdanynt, a'r rhesymau dros eich cwyn, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth.
- Unrhyw addasiadau rhesymol neu ddewisiadau cyfathrebu i'w hystyried o dan ein [polisi Addasiadau Rhesymol ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth](#).
- Y canlyniadau mae'n well gennych i'w cael eu hystyried – sut hoffech, yn ddelfrydol, i'ch cwyn gael ei ddatrys

² [Mesur yr Iaith Gymraeg \(Cymru\) 2011](#)

- Os yw eich cwyn yn ymwneud â digwyddiad a ddigwyddodd dros 12 mis yn ôl, y rheswm(au) dros yr oedi

Asesiad

Pan fydd y tîm Cwynion ac Adborth yn derbyn cyswllt a allai fod yn gŵyn, rydym yn cynnal asesiad cychwynnol i benderfynu a yw o fewn cwmpas ein polisi, ac os mai ni yw'r sefydliad priodol i ymateb.

Os byddwn yn penderfynu bod y cyswllt yn gŵyn ddilys, byddwn yn anelu at gydnabod eich cwyn o fewn **3 diwrnod gwaith**. Byddwn yn rhoi rhif cyfeirnod unigryw i chi. Bydd eich cwyn yn symud ymlaen i Gam 1 o'n proses cwynion.

Os byddwn yn penderfynu na allwn ymdrin â'ch cwyn, byddwn yn rhoi gwybod i chi o pam. Efallai y gallwn awgrymu sefydliadau eraill a allai helpu. Am restr lawn o'r cwynion na allwn eu hystyried, cyfeiriwch at [Atodlen 1](#).

Os na all y tîm Cwynion ac Adborth ddelio â'ch cwyn, byddwn yn rhoi gwybod i chi o fewn **20 diwrnod gwaith**, ac yn esbonio pam, oni bai nad ydyw ym mudd y cyhoedd i wneud hynny.³

Os byddwn angen gwybodaeth bellach i allu asesu eich cwyn, byddwn yn gofyn i chi ddarparu hyn o fewn **10 diwrnod gwaith**.⁴

Noder os gwelwch yn dda, os byddwch yn gwneud cwyn tra byddwch dan ymchwiliad gan IOPC, efallai y bydd yn rhaid i ni ohirio eich cwyn nes bydd yr ymchwiliad, ac unrhyw achosion cysylltiedig, wedi'u cwblhau.⁵

Yn IOPC, rydym yn dilyn proses cwyno ddau-gam. Esbonnir y camau hyn yn fanwl isod.

Cam 1

Bydd eich cwyn yn cael ei neilltuo i reolwr priodol o fewn y tîm perthnasol. Bydd y rheolwr yn casglu'r wybodaeth angenrheidiol ac yn sicrhau bod ystyriaeth deg a chymesur yn cael ei roi i'ch pryderon cyn gwneud penderfyniad.

Unwaith bydd y rheolwr wedi drafftio'r ymateb, bydd aelod o'r tîm Cwynion ac Adborth yn ei adolygu i sicrhau bod y gŵyn wedi cael ei ateb yn llawn.

Ein nod yw ymateb i gwynion o fewn **20 diwrnod gwaith**. Mewn rhai achosion, yn enwedig lle bernir bod cwyn yn arbennig o gymhleth neu ddifrifol (gweler tudalennau

³ Rheoliad 6(1)(5) Ymddygiad Staff

⁴ Trwy gydol y polisi hwn, diffinnir 'dyddiau gwaith' fel dyddiau'r wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener), ac eithrio gwyliau cyhoeddus statudol. Diwrnod 1 yw'r diwrnod ar ôl i ni dderbyn y cyswllt/cais.

⁵ Rheoliad 8 Ymddygiad Staff

7-8), mae'n debygol y bydd ymateb yn cymryd mwy o amser. Byddwn yn eich diweddarau ar gynnydd eich cwyn ac yn rhoi gwybod i chi os ydym yn disgwyl i'r ymateb gymryd mwy o amser.

Mae tri [canlyniad](#) posib i'ch cwyn:

- Cadarnhawyd
- Cadarnhawyd yn rhannol
- Ni gadarnhawyd

Byddwn yn darparu ymateb ysgrifenedig ar gyfer eich cofnodion, oni bai y cytunir fel arall. Byddwn yn egluro'r rhesymau dros ein penderfyniad yn glir. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw ddysgu rydym wedi'i nodi o'ch cwyn, ac am unrhyw gamau rydym yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr ymateb, rhowch wybod i ni o fewn **10 diwrnod gwaith**, a byddwn yn eu cyfeirio at y sawl sy'n gwneud y penderfyniad. Er mwyn effeithlonrwydd ac eglurder, gofynnwn i chi gyflwyno'r holl ymholiadau gyda'u gilydd mewn un e-bost, gan nad ydym yn gallu ystyried ceisiadau lluosog.

Os ydych yn teimlo nad oedd yr ymateb i'ch cwyn yn rhesymol a/neu'n gymesur, efallai byddwch yn gallu symud ymlaen i Gam 2 o'n proses cwynion (gweler tudalen 9). Bydd angen i chi ofyn am ymateb Cam 2, a darparu eich rhesymeg, o fewn **20 diwrnod gwaith** i dderbyn eich llythyr penderfyniad cwyn.

Noder na fyddwch yn gallu gwneud cwyn newydd am y rheolwr sy'n ymateb ar y sail nad ydych yn cytuno â'u penderfyniad.

Cwynion cymhleth

Mewn rhai achosion, mae angen ymchwilio i gŵyn i sicrhau y gallwn ymateb yn llawn. Gallai hyn ddigwydd os yw eich cwyn yn ymwneud â thimau lluosog neu'n ymwneud â digwyddiadau sy'n digwydd dros gyfnod estynedig.

Os yw eich cwyn yn arbennig o gymhleth, gall y rheolwr sy'n ymateb benderfynu comisiynu [adolygiad canfod ffeithiau](#). Mae'r penderfyniad hwn yn ôl disgresiwn y rheolwr. Caiff yr adolygiad ei gynnal gan aelod o staff IOPC sydd â'r wybodaeth a'r profiad angenrheidiol a phriodol.

Bydd y tîm Cwynion ac Adborth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynnydd yr adolygiad canfod ffeithiau bob 20 diwrnod gwaith. Unwaith bydd yr adolygiad canfod ffeithiau wedi'i gwblhau, byddwn yn ysgrifennu atoch i egluro'r canlyniad, ac unrhyw gamau y byddwn yn eu cymryd o ganlyniad.

Os ydych yn teimlo nad yw'r ymateb i'ch cwyn yn rhesymol a chymesur, byddwch yn gallu symud ymlaen i Gam 2 o'n proses cwynion (gweler tudalen 9).

Cwynion difrifol

Pan fydd yr asesiad cychwynnol o'ch cwyn yn dangos bod y mater mor ddifrifol fel y gallai gyfateb i honiad o gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol, bydd⁶ y tîm Cwynion ac Adborth yn cysylltu â'r rheolwr uwch perthnasol, a gyda chydweithwyr o'n tîm Gwasanaethau Pobl.

Gall yr asesiad cychwynnol gynnwys adolygiad byr o'r ffeithiau i'n galluogi i benderfynu a yw'n gŵyn difrifol.

Os cytunir y dylid trin eich cwyn fel un ddifrifol (camymddwyn neu gamymddwyn difrifol) o dan Reoliadau'r Comisiwn Annibynnol Cwynion Heddlu (Ymddygiad Staff) (h.y. pe bai'n cael ei brofi, byddai'n debygol o arwain at ddiswyddo'r unigolyn dan sylw neu ei fod yn cael ei orfodi i ymddiswyddo⁷), byddwn yn rhoi gwybod i chi, oni bai nad yw hynny er budd y cyhoedd.

Bydd [ymchwiliad rheoli](#) ffurfiol yn cael ei gynnal o dan Bolisi a Gweithdrefn Ddisgyblu IOPC, gan reolwr ymchwilio penodedig. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynnydd yr ymchwiliad bob 20 diwrnod gwaith.

Unwaith bydd yr ymchwiliad rheoli wedi'i gwblhau, bydd uwch reolwr yn ysgrifennu atoch i egluro'r canfyddiadau. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am yr hyn a ddigwyddodd, a yw camymddwyn wedi'i nodi, a ddilynwyd ein polisiau/gweithdrefnau, ac a ydym wedi nodi unrhyw ddysgu.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw gamau disgyblu a gymerir, oni bai nad yw er budd y cyhoedd i wneud hynny.⁸ Gellir cadarnhau cwynion gyda neu heb ganfyddiad o gamymddwyn.

Byddwn yn cydnabod pan fyddwn wedi gwneud camgymeriad, ac yn ymddiheuro i chi.

Noder nad oes hawl i symud ymlaen i gŵyn Cam 2 lle mae cwyn wedi'i hasesu fel un ddifrifol o dan y Rheoliadau. Ymchwiliad y rheolwyr yw cam olaf y broses. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, efallai byddwch yn gallu uwch-gyfeirio eich cwyn yn allanol (gweler tudalen 10).

⁶ Rheoliad 3(1)(b) ar Ymddygiad Staff

⁷ Rheoliad 3(3) Ymddygiad Staff

⁸ Rheoliad Ymddygiad Staff 5(5)

Cam 2

Os ydych yn parhau i fod yn anhapus yn dilyn yr ymateb i'ch cwyn, gallwch ofyn i'ch cwyn symud ymlaen i Gam 2 o'r broses cwyno.

Nid yw anghytuno â'r penderfyniad a wnaed ynghylch eich cwyn yn rheswm dilys dros symud ymlaen i Gam 2.

Gofynnir i chi roi rheswm dilys dros eich cais. Efallai y gofynnir i chi hefyd ddarparu tystiolaeth. Ystyriwn y canlynol i fod yn resymau dilys:

- Nid yw'r ymateb yn ymdrin â rhan o'ch cwyn.
- Mae'r wybodaeth sydd wedi'i gynnwys yn yr ymateb yn anghywir.
- Nid yw'r rhesymau dros y penderfyniad wedi'u hesbonio'n glir.

Bydd angen i chi ofyn am ymateb Cam 2, a darparu eich rhesymeg, o fewn **20 diwrnod gwaith** i dderbyn eich llythyr penderfyniad cwyn.

Os na allwch chi ddarparu rheswm dilys, ni fydd yr Adran Cwynion ac Adborth yn gallu eich cynorthwyo ymhellach. Pan mai dyma'r sefyllfa, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Os yw eich cais wedi cael ei asesu a'i ystyried i fod yn ddilys, bydd eich cwyn yn cael ei neilltuo i adolygydd mewnol sydd ddim eisoes wedi cael rhan flaenorol yn eich cwyn.

Bydd yr adolygydd yn ystyried yr ymateb i'r gŵyn a gyhoeddwyd i chi, ac yn penderfynu a gafodd y gŵyn ei thrin yn briodol, ac a oedd y canlyniad a gyrhaeddwyd yn rhesymol ac yn gymesur.

Ni fyddant yn ail-ymchwilio i'ch cwyn wreiddiol. Byddant yn anelu at gwblhau proses Cam 2 o fewn **20 diwrnod gwaith** i'ch cais am adolygiad.

Mae tri canlyniad adolygu posib (cyfeiriwch at adran Cam 1 y polisi am ddiffiniadau):

- Cadarnhawyd
- Cadarnhawyd yn rhannol
- Ni gadarnhawyd

Bydd yr adolygydd yn rhoi ymateb ysgrifenedig i chi, oni bai y cytunir fel arall. Byddant yn egluro'r rhesymau dros eu penderfyniad yn glir ac yn rhoi gwybod i chi am unrhyw gamau ychwanegol y byddwn yn eu cymryd o ganlyniad i'ch cwyn.

Dyma gam olaf proses cwyno IOPC. Nid ydym yn gallu cynnal trafodaeth bellach na threfnu adolygiad pellach.

Noder nad ydych yn gallu gwneud cwyn bellach am y canlyniad neu'r adolygydd ar y sail eich bod yn anghytuno â nhw.

Uwch-gyfeiriad allanol

Yn y rhan fwyaf o achosion, Cam 2 yw cam olaf ein proses cwyno, ac nid oes hawl i gwyno am IOPC i gorff arall.

Fodd bynnag, os ydych chi'n ddioddefwr/goroeswr o dan [God y Dioddefwyr](#) a bod eich cwyn yn ymwneud â methiant IOPC i gydymffurfio â Chod y Dioddefwyr mewn ymchwiliad troseddol annibynnol neu gyfeiriedig, yna gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO) a gofyn iddynt edrych ar eich cwyn gan ddefnyddio eu [ffurflen cwyno ar-lein](#).

Sylwch mai dim ond cwyn am IOPC y bydd y PHSO yn ei ystyried lle mae IOPC yn ymchwilio'n droseddol, neu'n cyfarwyddo ymchwiliad troseddol, a lle rydych wedi cwblhau'r ddau gam o broses gwyno fewnol yr IOPC ond yn parhau i fod yn anfodlon. Os ydych chi'n anghytuno â safbwynt IOPC ynghylch a oedd y Cod Dioddefwyr yn berthnasol yn amgylchiadau eich cyswllt â'r IOPC, yna efallai hoffech ystyried cysylltu â PHSO.

Cwynion cyfyngu

Ar adegau, lle bydd IOPC yn derbyn cyswllt a ystyriwn yn annerbyniol, efallai byddwn yn cymryd camau i gyfyngu ar fynediad defnyddiwr gwasanaeth i IOPC o dan ein Polisi Rheoli Cyswllt Annerbyniol gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth.

Os byddwn yn penderfynu cyfyngu ar eich cyswllt, mae gennych yr hawl i herio hyn. Bydd unrhyw gŵyn am gyfyngiad yn symud yn uniongyrchol i Gam 2 o'r broses cwyno (fel y manylir uchod).

Os bydd yr adolygydd yn cadarnhau eich cwyn neu'n canfod nad yw eich cyfyngiad yn rhesymol ac yn gymesur, gellir diwygio neu ddileu eich cyfyngiad.

Dyma gam olaf y broses, ac ni fydd unrhyw drafodaeth bellach. Caiff eich cyfyngiad ei adolygu'n gyfnodol yn unol â'r polisi.

Trin data

Os ydych chi am herio'r ffordd mae IOPC wedi ymdrin â chais am wybodaeth, mewn perthynas â Chais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR), cais am Ryddid Gwybodaeth (FOI), neu ymdriniaeth arall â'ch data personol, dylech gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data (DPO).

- E-bost: DPO1@policeconduct.gov.uk
- Ysgrifennwch at:
Swyddog Diogelu Data
Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)
PO Box 473
Sale
M33 0BW

Gallwch ofyn am adolygiad mewnol o benderfyniad a wnaed mewn perthynas â chais Rhyddid Gwybodaeth. Rhaid i chi wneud hyn o fewn **40 diwrnod gwaith** i dderbyn ein hysbysiad o benderfyniad.

Os nad ydych yn fodlon gyda canlyniad yr adolygiad mewnol, neu ganlyniad unrhyw gŵyn a godwyd gyda'r DPO, yna mae gennych hawl i gwyno i [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#) (ICO).

Os yw eich cwyn neu adborth yn awgrymu y gallai tor diogelwch data fod wedi digwydd, yna caiff ei anfon at y tîm perthnasol a'r DPO i'w asesu.

Sut mae'r polisi hwn yn cysylltu â'n polisiâu eraill

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

- [Gwneud cwynion am Bolisi Cyfarwyddwr Cyffredinol, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol a Chyfarwyddwyr Anweithredol IOPC](#)
- [Polisi Rheoli Cyswllt Annerbyniol gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth](#)
- [Polisi Addasiadau Rhesymol i Ddefnyddwyr Gwasanaeth](#)
- [Polisi Ail-ymchwilio](#)

Mae ein hysbysiad preifatrwydd a'r wybodaeth gysylltiedig ar gael [ar ein gwefan](#).

Atodiad 1: Materion na all Tîm Cwynion ac Adborth IOPC helpu

Materion a godwyd gan bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr gwasanaeth

Mae gan IOPC ystod eang o ddefnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys cleientiaid sy'n cwyno, dioddefwyr/goroeswyr, teuluoedd mewn profedigaeth, unigolion dan sylw'r heddlu a thystion, cynrychiolwyr, a gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u heffeithio yn bersonol. Mae gan yr holl grwpiau hyn yr hawl i gwyno os na fyddant yn derbyn y gwasanaeth y maent yn ei ddisgwyl gan IOPC.

Dim ond cwynion gan bobl sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol ac yn niweidiol gan waith IOPC y gall y tîm Cwynion ac Adborth eu hystyried. Mae hyn yn golygu y gallai fod yn amhosib i ni ystyried eich cwyn os ydych wedi gweld rhywbeth ond heb gael eich effeithio'n negyddol yn uniongyrchol ganddo.⁹

Materion sy'n addas i'w diddymu

Gallwn ddiddymu eich cwyn yn ffurfiol (h.y. ei gau heb ragor o weithredu) o dan Rheoliadau Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (Ymddygiad Staff) 2004, lle mae un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol:¹⁰

- a. Digwyddodd y digwyddiad dros 12 mis yn ôl (efallai y byddwn yn dal i allu ymchwilio i gwynion hwyr os gallwch ddarparu rhesymau cymhellol dros yr oedi – caiff hyn ei asesu fesul achos)
- b. Mae'r mater rydych chi'n ei godi eisoes yn destun cwyn.
- c. Nid ydym yn gallu canfod eich enw a/neu'ch cyfeiriad.
- d. Mae'r gŵyn yn [annifyr, yn ormesol, neu'n gam-driniaeth o'r broses.](#)
- e. Mae'r gŵyn yn ailadroddus (oni bai bod tystiolaeth newydd arwyddocaol).
- f. Nid ydym yn gallu cwblhau ymchwiliad boddhaol – byddwn yn esbonio ein rhesymeg am hyn.

⁹ Rheoliad 2(4) Ymddygiad Staff


¹⁰ Rheoliad Ymddygiad Staff 6(1)(a-f)

Materion eraill na allwn eu hystyried

Nid ydym yn gallu ymdrin â chwynion ynghylch unrhyw rai o'r canlynol:

- Penderfyniadau sy'n ymwneud â'r achos - Mae penderfyniadau IOPC yn derfynol a dim ond trwy'r [broses adolygu barnwrol](#) y gellir eu herio. Rydym yn cynghori ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol os ydych yn anfodlon â phenderfyniad rydym wedi'i wneud.
- Yr heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, neu awdurdodau maerol. Gallwch gyflwyno cwyn yn uniongyrchol trwy ffurflen ar-lein IOPC, a caiff hon ei hanfon yn awtomatig at y corff perthnasol.
- Adrannau eraill o'r llywodraeth neu gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)
- Anfodddhad â'r ffordd y mae'r heddlu wedi ymdrin â'ch cwyn. Cyfeiriwch at ein canllawiau ar [Adolygiadau ac Apeliadau](#).
- Rôl a chylch gwaith IOPC. Mae hyn wedi'i osod allan mewn deddfwriaeth, ac o'r herwydd dylech godi unrhyw anfodlonrwydd gyda'ch Aelod Seneddol.
- Anfodddhad cyffredinol gyda materion fel polisi neu strategaeth IOPC, neu sylw yn y cyfryngau/datganiadau i'r wasg
- Y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol a Chyfarwyddwyr Anweithredol. Penodiadau gan y Swyddfa Gartref yw'r rolau hyn, a caiff cwynion eu trin o dan [bolisi](#) gwahanol.
- Cyn-aelodau staff Pan yn briodol, byddwn yn adolygu amgylchiadau'r gŵyn i nodi dysgu ar gyfer y dyfodol.
- Materion sy'n ymwneud â chyflogaeth IOPC, a godwyd gan aelodau staff presennol neu gyn-aelodau staff. Bydd y rhain yn cael eu pasio i Wasanaethau Pobl i'w hystyried.
- Materion troseddol: dylid eu cyfeirio at yr [heddlu](#). Bydd IOPC dim ond yn atgyfeirio unrhyw faterion at yr heddlu yn uniongyrchol os byddwn yn derbyn tystiolaeth arwyddocaol sy'n ein harwain i gredu y dylid ymchwilio'n droseddol i aelod o staff (cyffredol neu gyn-aelod).
- Materion lle nad yw'n rhesymol ymarferol neu'n gymesur i amlygu'r aelod staff dan sylw, oherwydd gwybodaeth gyfyngedig.
- Cwynion lle nad ydym wedi gallu cyfathrebu â chi neu eich cynrychiolydd, neu lle nad ydych wedi darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdano.

Atodlen 2: Llif y Broses Cwynion



Geirfa termau

Camddefnyddio'r broses	Gellir ystyried cwyn yn gam-ddefnydd o'r broses pan defnyddir y gweithdrefnau mewn ffordd sy'n annheg, yn anonest, neu nad yw'n cyd-fynd â'u pwrpas bwriadol. Mae enghreifftiau'n cynnwys darparu gwybodaeth ffals yn fwriadol, ceisio defnyddio'r broses cwyno i fynd ar ôl cwyn personol nad yw'n gysylltiedig â'r mater, neu ailagor materion caeedig dro ar ôl tro heb dystiolaeth newydd.
Adolygiad Darganfod Ffeithiau	Ymchwiliad strwythuredig i gasglu a gwirio gwybodaeth am achos. Mae'n golygu edrych ar gofnodion, siarad â'r bobl dan sylw, ac adolygu unrhyw dystiolaeth sydd ar gael er mwyn i ni allu deall beth ddigwyddodd ac ymateb yn deg.
Adolygiad Rheoli	Cam ffurfiol yn y broses ddisgyblu lle mae rheolwr, gan weithio gyda'r Adran Adnoddau Dynol, yn ystyried y pryderon a godwyd yn ofalus i benderfynu beth ddylai ddigwydd nesaf.
Gormesol	Gellir ystyried cwyn yn ormesol pan fydd ymddygiad rhywun yn rhoi gormod o bwysau ar staff neu'r sefydliad. Gallai hyn gynnwys gofynion gormodol, cyswllt aml neu gyson sy'n ein hatal rhag ymdrin â gwaith arall, neu ymddygiad sy'n achosi i staff deimlo'n ofidus neu dan fygythiad.
Canlyniad – Ni gadarnhawyd	Nid oes tystiolaeth i gefnogi unrhyw agweddau ar y gŵyn a wnaed, a gwnaethom ffeindio bod pethau wedi cael eu gwneud fel y dylent.
Canlyniad – Cadarnhawyd yn rhannol	Profwyd rhai rhannau o'r gŵyn, ond nid yr holl agweddau. Mae tystiolaeth i gefnogi bod rhai pethau wedi mynd o'i le, tra bod rhannau eraill o'r gwasanaeth wedi'u darparu fel y dylent.
Canlyniad – Cadarnhawyd	Rydym wedi dod o hyd i dystiolaeth sylweddol sy'n cefnogi'r gŵyn. Os canfyddwn fod rhywbeth wedi mynd o'i le neu fod y gwasanaeth a dderbyniwyd wedi methu â chyrraedd y safon a ddylai fod wedi'i ddarparu, byddwn yn cydnabod hyn ac yn esbonio'r camau mae'r sefydliad wedi'u cymryd i unioni'r sefyllfa.

Rheoliadau Ymddygiad Staff

Mae [Rheoliadau'r Comisiwn Annibynnol Cwynion Heddlu \(Ymddygiad Staff\) 2004](#) yn nodi sut y dylid ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn erbyn staff IOPC. Sylwch fod y rheoliadau'n cadw'r cyfeirnod at IPCC ond hefyd yn berthnasol i IOPC.

Annifyr

Gellir ystyried cwyn yn annifyr pan fydd unigolyn yn codi materion mewn ffordd sy'n afresymol, yn barhaus, neu sydd wedi'i bwriadu i achosi tarfu yn hytrach nac i ddatrys pryder gwirioneddol. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwneud cwynion dro ar ôl tro am yr un mater ar ôl iddo gael ei ymchwilio'n llawn, neu ddefnyddio iaith neu ymddygiad sy'n ymosodol neu'n fygythiol.

Cod y Dioddefwyr

[Mae'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau yng Nghymru a Lloegr a'r deunyddiau gwybodaeth cyhoeddus ategol](#) yn canolbwyntio ar hawliau dioddefwyr ac yn nodi'r safon isaf y mae'n rhaid i sefydliadau ei darparu i ddioddefwyr trosedd.

Cyhoeddwyd Mehefin 2026

© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2026)



Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd sy'n perthyn i drydydd partion.

Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I ddarganfod mwy am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)

10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU

Ffôn: 0300 020 0096

E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk

Gwefan: www.policeconduct.gov.uk

Testun: 18001 020 8104 1220